# Rhwydwaith Canser Cymru i Ymchwilwyr ar Ddechrau neu ar Ganol eu Gyrfa

Canolfan Ymchwil Canser Cymru | Wales Cancer Research Centre

**Rhwydwaith Canser Cymru i Ymchwilwyr ar dechrau neu ar Ganol eu Gyrfa yn falch iawn o groesawu Dr Elisabeth Bik, a fydd yn cyflwyno: Gwallau a Chamymddwyn yn achos Delweddau Ymchwil Biofeddygol**

**dydd Iau 22ain o Ionawr 2026 15:00 - 16:00**



Mae Elisabeth Bik, PhD, yn ficrobiolegydd Iseldireg-Americanaidd sydd wedi gweithio am 15 mlynedd ym Mhrifysgol Stanford ac am 2 flynedd yn y diwydiant. Ers 2019, mae hi'n ymgynghorydd uniondeb gwyddoniaeth sy'n sganio llenyddiaeth fiofeddygol am ddelweddau neu ddata arall sy'n peri pryder. Mae hi wedi dod o hyd i dros 9,000 o bapurau gwyddonol problemus. Mae ei gwaith wedi arwain at dros 1,500 enghraifft o dynnu'n ôl a 1,100 o gywiriadau eraill. Am ei gwaith ar ddatgelu bygythiadau i uniondeb ymchwil, derbyniodd Wobr John Maddox 2021, Gwobr Sefydliad Einstein 2024, a Doethuriaeth Anrhydeddus 2025 gan Brifysgol Bern.

Yn ei sgwrs, bydd hi'n cyflwyno ei gwaith ac yn dangos sawl math o ddelwedd a ddyblygwyd yn amhriodol ac enghreifftiau eraill o gamymddwyn ym maes ymchwil. Yn ogystal, bydd hi'n trafod sut gall Deallusrwydd Artiffisial helpu i nodi achosion o gamymddwyn a'u creu nhw hefyd, yn ogystal â'r bygythiad cynyddol o du melinau papur gwyddonol.

**Bydd digon o gyfle i drafod, felly dewch â'ch cwestiynau gyda chi!**

**Edrychwn ymlaen at eich gweld chi yno!**

Defnyddiwch y **ddolen** hon i fynychu'r cyfarfod

(Nid oes angen aelodaeth o Rwydwaith EMCR)

I ymuno â Rhwydwaith EMCR, llenwch y **ffurflen** hon